Enw _____

DARLLENWCH
John 11: 55-57
John 12: 1-11

ADNOD ALLWEDDOL
Salm 95: 6

Astudiaeth 3 Bethania – Wrth y Bwrdd

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Exodus 12 Mathew 2: 1-11

Ar ôl iddo godi Lasarus o farw'n fyw, gallech feddwl y byddai pawb yn credu mai Iesu oedd y Meseia. Nid oedd hynny'n wir. Yn lle hynny, dechreuodd y prif offeiriaid a'r Phariseaid gynllwynio i'w ladd.

Y Meseia, neu Crist, oedd yr enw am yr un y byddai Duw'n ei ddewis i achub pobl.

C **Darllenwch Ioan 11:57 ac esbonio YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pa orchmynion a roddodd yr arweinwyr crefyddol.** 1

Roedd y rhan fwyaf o'r Iddewon eisiau mynd i Jerwsalem adeg y Pasg. Unwaith y flwyddyn, roedden nhw'n dathlu'r ffaith fod Duw wedi eu hachub o'u bywyd fel caethweision yn yr Aifft.

C **Pwy oedd arweinwyr Israel ar y pryd? (Darllenwch Exodus 12: 1)** 1

C **Aeth Iesu i gartref Lasarus, Mair a Martha. Rhowch √ neu × i ddangos a yw'r brawddegau isod yn GYWIR neu'n ANGHYWIR:-** 5

Roedd Lasarus yn rhy sâl i gael bwyd gyda nhw .....
Iesu oedd y prif westai. .....
Penderfynodd Martha eistedd wrth draed Iesu. .....
Roedd ar y disgyblion ormod o ofn i ddod i Fethania. .....
Cynhaliwyd y swper chwe diwrnod cyn y Pasg.. .....

C **Beth wnaeth Mair oedd yn anghyffredin a beth oedd canlyniad hynny?** 3

Roedd Mair yn gwneud rhywbeth tebyg i'r hyn a wnaeth y Doethion pan ddaethant i weld Iesu ar ôl ei eni.

C **Edrychwch ar Mathew 2:11 ac ysgrifennu'r gair sy'n disgrifio beth a wnaethant.** 1



Y tro hwn, roedd Mair eisiau dangos ei chariad at yr Arglwydd Iesu. Rhoddodd rywbeth a oedd wedi costio llawer iawn o arian iddi i'r Arglwydd. Roedd wedi costio tua'r un faint o arian ag yr oedd gweithiwr yn ei ennill mewn blwyddyn.

Doedd Jwdas ddim yn barod i aberthu fel y gwnaeth Mair. Roedd e'n hunanol.

C **Beth ddywedodd Jwdas?**



2

C **Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn dweud nifer o bethau am Jwdas. Rhestrwch dri ohonynt.**

1
2
3

3

C **Ysgrifennwch ateb Iesu i Jwdas.**



1

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol. Tanlinellwch un gair sy'n crynhoi thema'r astudiaeth hon.**

2

Roedd Mair wedi gwrando ar yr Arglwydd Iesu. Roedd hefyd wedi gweld ei brawd yn cael ei godi o farw'n fyw. Roedd yn dechrau deall bod Iesu'n Fab Duw. Dyna pam y dangosodd ei chariad trwy ei addoli.
Heddiw, gall Cristnogion ddangos eu cariad at Iesu trwy ufuddhau iddo.

C **Chwiliwch am Ioan 14:15, ac ysgrifennu'r adnod.**

1

Gofynnwch i'r Arglwydd Iesu eich helpu i wneud hyn.